

e:gylchlythyr



Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru



Wythnos Bioamrywiaeth Cymru
Wales Biodiversity Week

4-12 Mehefin / June 2011




Bydd Wythnos Bioamrywiaeth Cymru eleni yn para rhwng 4 a 12 Mehefin. Mae Wythnos Bioamrywiaeth Cymru yn wythnos o weithgareddau blynyddol sy'n annog pobl i ymddiddori yn eu bywyd gwyllt a'u hamgylchedd lleol. Mae mwyafrif y digwyddiadau'n rhai di-dâl ond bydd angen archebu lle ymlaen llaw ar gyfer llawer ohonynt, ac os hoffech wybod mwy am unrhyw rai o'r digwyddiadau, cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth lleol.

- » Yng Ngogledd Ddwyrain Cymru mae'r wythnos yn cychwyn **ddydd Sadwrn 4 Mehefin** gyda **diwrnod Eco yn Swinchaird brook yn y Fflint** sy'n cael ei ddilyn gan **daith gerdded ystlumod** fin nos. Bydd Cadw Cymru'n Daclus yn gweithio â grŵp cadwraeth Swinchaird, Cymunedau yn Gyntaf a BTCV i ganfod beth sy'n byw yng nghyffiniau Swinchaird ac i wella'r cynefin yn y coridor gwyrdd hwn drwy ganol y Fflint. Ganol yr wythnos, ar
- » **Nos Fercher 8 Mehefin** byddwn yn **lasio tymor gwaredu'r ffromlys chwarennog yn Nyffryn Alun yn Leadmills yn yr Wyddgrug**. Rydym bellach wedi cyrraedd trydedd flwyddyn ein prosiect i ddileu'r planhigyn ymwthiol anffordorol hwn o ddyffryn Alun a chyda chefnogaeth holl bwysig y gymuned rydym wedi gweld gostyngiad anferthol ar hyd coridor yr afon. Bydd cyfle hefyd i fwynhau
- » **Bywyd y nos yng nghoedwig Nercwys ar nos Iau 9 Mehefin**. Gobeithiwn gael profi synau'r ystlumod, y troellwyr mawr a'r tylluanod yn ogystal â'u gweld, gobeithio.
- » Ddydd **Sadwrn 11 Mehefin**, bydd Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru yn cynnal **diwrnod natur y tu ôl i dafarn y Cross Keys ym Mwcle**. Bydd teithiau gwyllo adar yng nghwmni arbenigwr yn cychwyn am 9:30am a bydd digonedd o stondinau natur a gweithgareddau i'ch cadw'n brysur rhwng 11 a 2.
- » Yn olaf, ar **ddydd Sul 12 Mehefin** byddwn yn **gwneud cartrefi i fywyd gwyllt** yn ystod diwrnod galw i mewn ym **Mharc Gwledig Loggerheads**. Dewch i'n gweld unrhyw bryd rhwng 11 a 3 i wneud eich cartref eich hun i fywyd gwyllt i fynd adref gyda chi ac i ddenu bywyd gwyllt i'ch gardd.
- » Os hoffech gael cyfle i ddod wyneb yn wyneb â bywyd gwyllt yng Nghonwy, gweler **Rhaglen o Ddigwyddiadau Bioamrywiaeth Conwy**, sy'n cynnwys popeth o grwydro glan y môr yn yr haf, casglu madarch yn yr hydref i wneud blychau nythod ar gyfer y Nadolig, felly mae digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer pawb ar bob adeg o'r flwyddyn. Cliciwch ar y ddolen hon i fynd â chi i wefan Conwy i lwytho'r rhaglen o ddigwyddiadau i lawr www.conwy.gov.uk/biodiversityevents.

Gweddnewidiwch eich gardd ar gyfer bywyd gwyllt

Mae'n hawdd meddwl mai rhywbeth at ein pleser ni'n unig yw'n gerddi, ond os edrychwch yn ofalus fe welwch fod pob math o greaduriaid yn defnyddio'n gerddi. Os cânt eu rheoli'n gywir, gall gerddi fod yn gynefin perffaith i anifeiliaid a phlanhigion – rhai sy'n aml o dan



e:gylchlythyr



Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru

fygythiad yn eu cynefin naturiol. Gall gardd gyffredin sy'n cael ei rheoli'n gywir gynnal hyd at 3000 o wahanol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid!

e:gylchlythyr



Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru

Mae Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru wedi lansio **Pecyn Gwybodaeth Garddio Bywyd Gwyllt** newydd, sy'n cynnig cymorth ac arweiniad ar weddnewid eich gardd yn hafan i fywyd gwyllt. Gall newidiadau bach hyd yn oed wneud gwahaniaeth mawr i fywyd gwyllt. "Mae garddio bywyd gwyllt yn ffordd wych i bobl o bob oed wneud eu rhan dros gadwraeth", yn ôl y Swyddog Bioamrywiaeth Lizzy Webster. "A'r hyn sy'n dda yw eich bod yn gallu gweld buddiannau'ch gwaith caled a gwylio bywyd gwyllt yn defnyddio'ch gardd." O dan yr amgylchiadau iawn, gallwch weld draenogod yn chwilota yn y tyfiant, gwenyn yn hedfan o un blodyn i'r llall a phenbyliaid yn nofio yn eich pwll. Cymerwch funud neu ddwy i chwilio yn y llefydd llai amlwg hefyd – codwch ambell garreg i weld beth sydd oddi tani. Efallai y cewch eich synnu wrth weld faint o fywyd sydd yno! **Mae'r Pecyn Gwybodaeth Garddio Gwyllt ar gael i'w lwytho i lawr yn www.flintshire.gov.uk/biodiversity neu cysylltwch â Lizzy Webster yn biodiversity@denbighshire.gov.uk / 01824 708263.**

Cofnodwch rywogaeth Anfrodorol heddiw!

A ydych yn adnabod y planhigion hyn? Mae'n debyg y byddwch yn hen gyfarwydd â'r ffromllys chwarennog (Himalayan balsam) a chlymog Japan (Japanese knotweed), gan eu bod



yn ymledu'n gyflym iawn ar hyd glannau ein hafonydd. Nid ydynt yn blanhigion brodorol ac maent yn mygu ein planhigion brodorol, gan ffurfio twmpathau trwchus ar hyd glannau ein hafonydd. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod ble'n union mae'r planhigion hyn yn tyfu cyn y gallwn gynllunio gwaith i'w rheoli, gan fod yn rhaid i waith rheoli gael ei gynllunio ar lefel dalgylch afonydd. Byddai'n werthfawr iawn pe gallech gofnodi lleoliad y planhigion hyn ar wefan Cofnod yn www.cofnod.org.uk. Mae Cofnod, canolfan cofnodion lleol Gogledd Cymru, yn coladu cofnodion o rywogaethau anfrodorol neu ymwithiol ar gyfer prosiect '**Cofnodi Dieithriaid'** Fforwm Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol Gogledd Cymru a'r Ddyfrdwy

Mae'r rhywogaethau eraill sy'n cael eu cofnodi'n cynnwys cimwch yr afon America, y minc a'r efwr enfawr.

Am ragor o wybodaeth am rywogaethau ymwithiol, ewch i wefan y [GB non-native species secretariat](http://www.gb-non-native-species-secretariat.org). © Hawlfraint y Goron

Bywyd Gwyllt Safle Treftadaeth y Byd

Cafodd Traphont a Chamlas Pontcysyllte eu dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn 2009. Mae'r gamlas a'r draphont yn enghreifftiau gwych o ddyfeisgarwch peirianyddol a adeiladwyd yn ystod y chwyldro diwydiannol, ac mae'n gampwaith o safbwynt datblygiad trafnidiaeth hanesyddol a dyma waith mwyaf nodedig y peirianwyr sifil Thomas Telford a William Jessop.

Mae Traphont Pontcysyllte yn croesi dyffryn Afon Dyfrdwy ar uchder o 38.4 metr, a dyma'r draphont uchaf a hiraf y gellir ei mordwyo yn y byd. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn cynnwys 18 km o ddyfrffordd fordwyol o fewn dalgylch Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a Siroedd Dinbych ac Amwythig. O'r cychwyn yn Rhaeadr Oernant i Bont Gledrid ger Rhoswel, mae'r safle'n cynnwys 2 draphont ym Mhontcysyllte a'r Waun, 2 dwnnel yn y Waun a Whitehouses, 31 o bontydd, 15



arglawdd, 16 trychfa a 18 cylfat. Ar hyd llawer ohono ceir coed, coetiroedd bychain a rhuthr dŵr. Rhoddir pwyslais mawr ar gynnwys y gymuned leol ym mhob agwedd ar reoli a hyrwyddo'r safle sy'n cael ei arwain gan Grŵp Cyfeillion Aqueducts. Yn ogystal â phwysigrwydd y safle o safbwynt hanes a'r dirwedd, mae'r gamlas yn goridau bywyd gwyllt pwysig sy'n cynnal Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, megis dyfrgwn ac amryw o adar gwyllt. Os cerddwch ar hyd y gamlas fin nos byddwch yn siŵr o sylwi ar nifer o ystlumod yn bwydo ac yn hedfan yn ôl a blaen ar hyd y gamlas. Y rhain fydd gwrthrych ein harolwg bywyd gwyllt yn ystod yr haf hwn. Mae'r 18km wedi'i rannu'n 16 llwybr, gyda phob un yn cychwyn wrth bont. Bydd gwirfoddolwyr gyda synwryddion yn cerdded ar hyd y safleoedd ddwywaith yn ystod yr haf. Mae'r prosiect yn gobeithio canfod clwydydd o fewn adeiladau, mannau bwydo gwerthfawr a mannau y gellid eu gwella. Rydym yn chwilio am ragor o wirfoddolwyr ar gyfer yr arolwg, sy'n waith digon syml ac ni fydd angen dim profiad blaenorol. **Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch ag Emma Broad, Swyddog Bioamrywiaeth Wrecsam ar 01978292514 neu e-bostiwch emma.broad@wrexham.gov.uk.**



Cofrestrwch i dderbyn rhifynnau nesaf yr E-Newyddion:

- » Os hoffech danystrigrio neu ganslo'ch tanystrigriad i'r cylchlythyr, cysylltwch â ni.
- » Os hoffech gymryd rhan yn unrhyw un o'r prosiectau hyn, cysylltwch ag awdur yr erthygl.
- » Os gwyddoch am rywbeth sy'n haeddu sylw yn ein E-Newyddion, cofiwch roi gwybod i ni.

Cysylltwch â ni:

Wrecsam:
emma.broad@wrexham.gov.uk
Ffôn: 01978 292514

Sir y Fflint:
sarah.brown@flintshire.gov.uk
Ffôn: 01352 703263

Sir Ddinbych:
elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk
Ffôn: 01824 708263

Conwy:
anne.butler@conwy.gov.uk
Ffôn: 01492 575123

Rhai dolenni defnyddiol:

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Cofnod: <http://www.cofnod.org.uk/>

Cyngor Cefn Gwlad Cymru: <http://www.ccw.gov.uk/>

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: <http://www.environment-agency.gov.uk/aboutus/organisation/35675.aspx>

Coed Cadw (Woodland Trust):
<http://www.woodlandtrust.org.uk/en/Pages/default.aspx>

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar: <http://www.rspb.org.uk/>

System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth: <http://ukbars.defra.gov.uk/>

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
<http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/>

» Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill, ac yn Saesneg. Cysylltwch a ni am gopi.